



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer gweithwyr proffesiynol

Llyfryn i helpu gweithwyr proffesiynol i baratoi ar gyfer y
cyfarfod

www.llyw.cymru



Canllawiau

Dogfen wybodaeth: rhif 184/2015

Dyddiad cyhoeddi: Awst 2015

Adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion ar gyfer gweithwyr proffesiynol

Cynulleidfa	Unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n cyfrannu at adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolion.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn rhoi templed i'w ddefnyddio i baratoi ar gyfer adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolion.
Camau i'w cymryd	Ystyried defnyddio'r templed hwn i baratoi ar gyfer adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon i: Y Gyfarwyddiaeth Seilwaith, Cwricwlwm, Cymwysterau a Chymorth i Ddysgwyr Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 5789 e-bost: AdditionalLearningNeedsBranch@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn llyw.cymru/dysgu
Dogfennau perthnasol	<i>Pecyn cymorth adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion</i> http://dysgu.llyw.cymru/resources/browse-all/person-centred-reviewstoolkit/?lang=cy Atgynhychwyd delweddau gyda chaniatâd Julie Barclay.

Beth yw adolygiad sy'n canolbwyntio ar unigolyn?

Mae adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ffordd o benderfynu pa gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer dysgwr gydag anghenion addysgol arbennig, p'un a yw hyn yn adeiladu ar yr hyn sy'n digwydd eisoes neu benderfynu a oes angen unrhyw newidiadau.

Mae'n bwysig i ddysgwyr fod y bobl gywir yn cymryd rhan yn eu cyfarfod adolygu i'w helpu i gynllunio ar gyfer eu dyfodol. Mae hyn yn golygu y gall y bobl sy'n rhan o'r adolygiad wneud yn siŵr fod gan y dysgwr y pethau sy'n bwysig iddo, yn ogystal â'r gefnogaeth gywir i'w helpu i gyflawni ei ddyheadau.

Pwy fydd yno?

Gall y dysgwr ddewis pwy fyddai'n hoffi fod yno ond bydd hefyd, wrth gwrs, rai pobl sy'n gorfod bod yno fel staff allweddol o'r ysgol neu'r coleg, staff awdurdod lleol neu weithwyr iechyd proffesiynol.

Dylai nifer y bobl sy'n mynychu'r adolygiad adlewyrchu anghenion y dysgwr – nid oes rhestr benodol o ymarferwyr a ddylai fod ym mhob cyfarfod.

Yn achos rhai dysgwyr gall llawer o bobl fod yn rhan o'r adolygiad, pobl fel gweithwyr iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, yn ogystal â pherthnasau a ffrindiau.

I eraill, efallai mai dim ond y dysgwr, aelodau o'r teulu a rhywun o'r ysgol neu'r coleg fydd yno.

Yn achos dysgwyr dros 16 oed efallai mai dim ond y dysgwr ei hunan a rhywun o'r ysgol neu'r coleg fydd yno.

Ble a phryd fydd yr adolygiad?

Cynhelir yr adolygiad yn yr ysgol neu'r coleg fel arfer. Dylai'r amser a'r dyddiad fod yn gyfleus i'r dysgwr a'i deulu, yn ogystal ag unrhyw bobl eraill sy'n dod.

Dylai pob dysgwr gael o leiaf un adolygiad y flwyddyn: cyfrifoldeb yr ysgol neu'r coleg fydd trefnu'r dyddiadau.

I rai dysgwyr bydd yn briodol adolygu'r gefnogaeth a'r ymyriadau a dderbyniant yn fwy rheolaidd, e.e. bob tymor. Bydd hyn yn dibynnu ar anghenion y dysgwr ac arfer yr ysgol neu'r coleg.

Beth y dylech feddwl amdano cyn y cyfarfod?

Mae nifer o bethau i feddwl amdanynt cyn y cyfarfod. Bydd y llyfryn yma'n eich helpu i feddwl am beth fydd angen i chi ei ddweud a'i wneud.

Ni fydd angen i chi ddarllen yn uchel unrhyw adroddiadau proffesiynol yr ydych wedi eu hysgrifennu am y dysgwr yn y cyfarfod, ond bydd yn help os gallwch grynhoi'r wybodaeth yma gan ddefnyddio'r penawdau ar gyfer cyfarfodydd adolygu (a ddisgrifir yn y llyfryn yma).

Os na fyddwch yn yr adolygiad, gallai fod yn bwysig o hyd i'r dysgwr fod eich barn yn cael ei chlywed yn y cyfarfod. Os felly, mae'n bwysig iawn iddyn nhw eich bod yn cymryd amser i feddwl am y cwestiynau, cofnodi eich meddyliau yn y gofod a roddwyd a'u dychwelyd at y person sy'n trefnu'r adolygiad erbyn y dyddiad a nodir. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd pobl yn clywed eich barn yn y cyfarfod.

Beth fydd yn digwydd yn y cyfarfod?

Mae awyrgylch hamddenol mewn adolygiadau sy'n canolbwyntio ar unigolion sy'n wahanol iawn i gyfarfodydd cynllunio traddodiadol eraill. Caiff popeth ei drefnu i fod mor anffurfiol ac mor gysurus ag sy'n bosibl.

Gallai fod yn gyfarfod bach, sgwrs hamddenol er enghraifft gyda'r dysgwr, y rhieni a chydlynnydd anghenion addysgol arbennig.

Hyd yn oed os oes llawer o bobl yn y cyfarfod, efallai na fydd bwrdd mawr ond gallai fod cerddoriaeth yn chwarae a phapur siart troi wedi'i osod ar y waliau.

Bydd hwylusydd yn gwneud yn siŵr fod pawb yn cael cyfle i rannu gwybodaeth, a bydd yn llywio pobl drwy broses i ddatblygu a chytuno ar ddeilliannau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Bydd y rhai sy'n cymryd rhan wedyn yn cytuno ar y targedau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i gefnogi'r dysgwr i gyflawni ei ddyheadau.

Os na allwch fynychu'r cyfarfod ond yn anfon adroddiad yn lle hynny, yn ddelfrydol dylai gael ei drefnu dan benawdau canolbwyntio ar yr unigolyn, gan y bydd hyn yn golygu y bydd yn rhwydd i rywun arall rannu'r wybodaeth yn y cyfarfod.

Dylai unrhyw adroddiad gael ei rannu gyda'r dysgwr neu rieni cyn y cyfarfod, ac os na allwch fynychu, yn ddelfrydol dylech ei anfon at y person sy'n trefnu'r cyfarfod hefyd.

Ni fydd angen i chi ddarllen eich adroddiad yn uchel ond disgwylir i chi gynnwys gwybodaeth berthnasol ohono dan y penawdau priodol ac mewn trafodaethau.


Ar ddiwedd adolygiad

Erbyn diwedd yr adolygiad bydd yr hwylusydd yn gwneud yn siŵr y cytunwyd ar Gynllun Gweithredu.


Bydd y Cynllun Gweithredu yn rhoi sylw i'r materion a gafodd eu codi ac y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt yn ystod y cyfarfod a bydd yn cynnwys:

- beth sydd angen ei wneud i gefnogi'r dysgwr yn ei addysg a'i ddatblygiad
- pwy sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod hyn yn digwydd (person a enwir a'i sefydliad, os yw'n briodol)
- pryd a lle y bydd yn digwydd (o leiaf ddyddiad dechrau, ynghyd â dyddiad gorffen os yw'n briodol)
- beth yw'r mesur llwyddiant ar gyfer pob cam gweithredu (deilliant sydd wedi'i ddiffinio'n glir ac y medrir ei fesur.


Beth ydych chi'n ei hoffi, edmygu neu werthfawrogi fwyaf am y dysgwr?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for a student to write their answer to the question above.


Beth sydd wedi digwydd ers yr adolygiad diwethaf?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.


Beth ydych chi'n feddwl, o'ch safbwynt chi, yw dyheadau'r dysgwr ar gyfer eu dyfodol?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the respondent to write their answer to the question above.


Beth ydych chi'n feddwl yw'r pethau pwysicaf ym mywyd y dysgwr ar hyn o bryd?




Beth ydych chi'n feddwl sy'n bwysig ar gyfer y dysgwr er mwyn datblygu a symud ymlaen?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.


Beth sydd angen i bobl eraill ei wybod neu ei wneud i helpu'r dysgwr?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the user to write their response to the question above.


Beth sy'n gweithio'n wirioneddol dda ar hyn o bryd o'ch safbwynt chi?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the respondent to write their answer to the question above.

Beth sydd ddim yn gweithio cystal ar hyn o bryd o'ch safbwynt chi?

A large, empty rectangular box with a thin black border, intended for the respondent to write their answer to the question above.

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill?



Os na fyddwch yn dod i'r adolygiad, llenwch y ffurflen a'i dychwelyd atom erbyn /..... /..... os gwelwch yn dda. Byddwn wedyn yn sicrhau y caiff eich sylwadau, syniadau a chwestiynau eu cynnwys yn yr adolygiad.

Diolch i chi am roi o'ch amser i gymryd rhan yn yr adolygiad hwn sy'n canolbwyntio ar unigolyn.